Cwrdd Diolchgarwch Bethlehem (Llandre)

Nos Wener, 12 Hydref 2007 am 7 o'r gloch

Pregethir gan Mrs Judith Morris

Croeso cynnes i bawb

### *Grŵp Help Llaw*

Ymgyrch ddiweddaraf y Grŵp Help Llaw yw casglu hen sbectolau i'w hailgylchu fel rhan o ymgyrch *Vision Aid Overseas*. Os oes gennych hen sbectols nad ydych yn eu defnyddio bellach, dewch â nhw i festri'r Garn (does dim angen y casys).

Diolch am bob cyfraniad.

### *Mynwent y Garn*

Bu gweithio caled yn y fynwent yn ystod mis Mai gan nifer fechan o wirfoddolwyr. Mae ein diolch yn fawr iawn i Owen Morgan ac i Daniel a Merfyn James (a'i fab Paul a'i ŵyr Jo) am ddod â thryc a char, i Ieuan Thomas, Owain Thomas, Gwynfor Jones, Bryn Lloyd, Eddie Jenkins a Vernon Jones ac i Ian Cole a fu'n brysur yn gwneud y trefniadau. Bydd y fynwent yn llawer haws i'w thrin nawr. Diolch i Trefor Evans am dorri'r gwair ym mhen uchaf y fynwent er mwyn ei wastatáu fel y bydd yn haws ei dorri gyda pheiriant.

*Eddie Jones* (Goruchwyliwr y Fynwent)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 9 Medi i:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
marian_hughes@btinternet.com

# Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 26 www.capelygarn.org Haf 2007



*Gweinidog*
Y Parchg Wyn Rhys Morris
47, Glan Ceulan
Penrhyn-coch
e-bost: morris@coedlas.plus.com
(01970 820920)

*Ysgrifennydd*
Mr Eddie Jenkins
Eryl
Llandre
Bow Street
(01970 828147)

Annwyl ffrindiau,

Aeth tri mis heibio bellach ers i mi ddechrau bugeilio a phregethu yn eich plith a mawr fu'r croeso a estynnwyd gennych. Y mae Judith a minnau yn gwerthfawrogi eich caredigrwydd diffuant a'ch dymuniadau gorau tuag at y ddau ohonom. Bu'r Gwasanaeth Sefydlu yn un hynod fendithiol ac yr wyf am ddiolch i bawb am yr holl baratoadau a'r trefniadau gofalus a wnaed gennych.

Yn ystod yr amser byr y bûm yn weinidog arnoch deuthum i adnabod rhai ohonoch yn bur dda a'ch cyfarfod nid yn unig yn y capel ond hefyd ar garreg yr aelwyd. Yr wyf yn argyhoeddedig mai'r berthynas ddelfrydol bob amser rhwng gweinidog ac aelodau, bugail a phraidd, ydyw'r un o ymddiriedaeth. Felly, peidiwch â phetruso rhag ymddiried ynof. Byddaf yn barod i wrando a cheisio eich cynorthwyo bob amser. Yr wyf yn ymwybodol i'r Parchedig Robert W Jones roi blynyddoedd lawer o wasanaeth diflino i'r eglwys. Nid gwaith hawdd fydd ei ddilyn, ond gallaf eich sicrhau y gwnaf fy ngorau.

Gwerthfawrogaf ffyddlondeb yr aelodau hynny sydd yn mynychu'r oedfaon yn rheolaidd o Sul i Sul ac anogaf y rhai sydd wedi pellhau, o bosib, o Dŷ Dduw, i ddychwelyd i'r gorlan. Gwn, fodd bynnag, pa mor anodd yw mynychu oedfa os ydych wedi bod yn cadw draw o hen arferiad. Ond y mae ar Eglwys Iesu Grist ein hangen ni i gyd ac efallai fod cael gweinidog newydd ar yr Ofalaeth yn rhoi cyfle newydd i bob un ohonom i ailgydio yng ngwaith y Deyrnas. Meddai'r Iesu un tro, "Nid yw'r sawl a osododd ei law ar yr aradr, ac sy'n edrych yn ôl, yn addas i deyrnas Dduw" (Luc 9:62). Pa well anogaeth ar ddechrau cyfnod newydd yn hanes Capel y Garn! Y mae dilyn Iesu yn golygu ein bod yn rhoi ein bryd ar wynebu'r yfory, ar gamu ymlaen i'r dyfodol.

Ni chawsom ein galw i fwynhau'r Deyrnas ond i'w haredig, i wneud i rywbeth dyfu. Y mae'r darlun o'r amaethwr yn aredig ei gwys yn dwyn i gof ddamhegion adnabyddus yr Arglwydd Iesu am hau a medi, am dyfu cnwd. Ydyn ni'n barod i weithio er mwyn Iesu? Pa mor ffyddlon fyddwn ni iddo? Nid nifer y talentau a gawsom sy'n cyfrif, ond ein parodrwydd i weithio yn yr Eglwys er ei fwyn.



Yn ogystal â mynchu'r Gymanfa ei hun, daeth cyfle hefyd i ymweld â rhai o'r llefydd pwysicaf yn hanes y genhadaeth ar Fryniau Khasia a Jaintia. Yn Cherrapunji (Sorah), yn y flwyddyn 1841, y cychwynnodd y cyfan pan gyrhaeddodd y cenhadwr cyntaf o Gymru, Thomas Jones a'i briod. Profiad arbennig oedd cael fy nhywys o gwmpas y Coleg Hyfforddi a'r hen Orsaf Genhadol yn Cherrapunji a gweld cartrefi'r cenhadon, ynghyd â'r fynwent ar y bryn lle cawsai rhai ohonynt eu claddu. Rhaid oedd talu ymweliad hefyd â'r ysbytai yn Shillong a Jowai yn ystod y daith ac, yn ogystal, Ysgol Uwchradd y Merched, y Cartref i Blant Amddifaid a Phencadlys y Synod yn Shillong. Bu cyfle hefyd cyn dychwelyd i Gymru i ymweld â bedd Thomas Jones yn Calcutta.

Yr hyn a fydd yn aros yn y cof am fy ymweliad â Bryniau Khasia yw'r parch a ddangosir tuag at y cenhadon a ddaeth yno o Gymru, ynghyd â brwdfrydedd ac ysbrydoledd yr eglwys, sydd yn parhau i dyfu a datblygu. Byddai'n fuddiol iawn i ni fel Cyfundeb i ystyried cryfhau ein cysylltiadau â'r Eglwys Bresbyteraidd yng ngogledd-ddwyrain yr India.

*WM*

## Ymweliad â Bryniau Khasia

Daeth cyfle annisgwyl yn gynharach eleni i ymweld ag Eglwys Bresbyteraidd India ar Fryniau Khasia, yn dilyn gwahoddiad gan Henaduriaeth *Laitumkhrah* i weinidog o Gymru fynd draw yno i bregethu yn eu Cymanfa Ieuenctid. Yn ogystal â'r croeso tywysogaidd a dderbyniais, yr hyn a'm trawodd yn fwy na dim yn ystod fy ymweliad oedd awydd a brwdfrydedd y bobl, yn arbennig yr ifainc, mewn perthynas â'r Efengyl; a'r Eglwys yno yng nghanol diwygiad, yr oeddent ar dân dros Grist. Diddorol oedd canfod hefyd eu bod yn awyddus iawn i wybod mwy am Gymru, am ei hanes crefyddol, ei threftadaeth a'i diwylliant. Ni allaf bwysleisio'n ddigonol pa mor ddyledus ydynt i'r fam-eglwys yng Nghymru am anfon yr holl genhadon i'w gwlad yn y gorffennol ac am roddi iddynt yr Efengyl, ynghyd â'r Beibl yn eu hiaith eu hunain, rhywbeth a fynegwyd wrthyf dro ar ôl tro yn ystod fy ymweliad.

Yn un o eglwysi Shillong y cynhaliwyd y Gymanfa ac yr oedd y trefnwyr wedi paratoi rhaglen gynhwysfawr ar gyfer yr ieuenctid, gydag amryw o oedfaon a seminarau diddorol. Profiad cofiadwy ydoedd cerdded i fewn i'r gwasanaeth agoriadol a'r gynulleidfa hardd yn canu emyn yn yr iaith Khasi ar y dôn Gymreig "Cwm Rhondda". Nid oes prinder corau yn yr eglwysi ar Fryniau Khasia a bu tri chôr gwahanol yn canu yn ystod y gwasanaeth. Ar nos Wener y Gymanfa cyflwynwyd rhaglen gymdeithasol, ysgafn ei natur, gan yr ieuenctid, a oedd yn cynnwys sgets a gêmau yn seiliedig ar y Beibl. Ar y prynhawn Sadwrn cefais gyfle i sgwrsio â rhai o'r cynrychiolwyr ifainc ac yr oeddent yn awyddus iawn i wybod mwy am gyflwr crefydd yng Nghymru. Dyma rai o'r cwestiynau treiddgar a ofynnwyd imi: "Yr ydym wedi clywed sôn nad oes llawer o bobl yn mynychu llefydd o addoliad yng Nghymru. Ydy hynny'n wir ac, os felly, beth sy'n cael ei wneud gan yr eglwys i ddenu'r ifainc? Beth yw'r materion pwysicaf sydd yn mynd â bryd ieuenctid Cymru? Beth am yr emynau a genir yn yr oedfaon? A yw'r gerddoriaeth yn ddigon afieithus?" Yr oedd yr haul yn gwenu'n braf ar y dydd Sul, a diolch am hynny gan fod y gwasanaethau yn cael eu cynnal mewn stadiwm yn yr awyr agored. Braint yn wir oedd cael pregethu yn yr oedfa brynhawnol o flaen 10,000 o bobl, nifer fawr ohonynt yn bobl ieuainc.

Ac fe allwn wneud hynny mewn llawer dull a llawer modd, pe baen ni ond yn ceisio bod ychydig yn fwy ffyddlon i'r oedfaon ar y Sul neu'r Dosbarthiadau Beiblaidd a drefnir gan yr Eglwys maes o law. Nid yw'r sawl a osododd ei law ar yr aradr ac sy'n edrych ar y pethau sydd o'i ôl yn rhoi o'i orau. Y mae'n byw yn y gorffennol.

Ond am yr un sy'n edrych tua'r yfory, y mae ef neu hi yn rhoi'r cyfan sydd ganddo, a dyna'r unig beth y mae'r Iesu yn ei ddisgwyl gennym, sef ein bod yn rhoi o'n gorau: byw er mwyn y freuddwyd, cyrchu at y nod, hawlio dyfodol newydd. Nid pa mor bell yr ydym wedi cyrraedd sy'n cyfrif mewn gwirionedd ond i ble yr ydym yn anelu ato gyda'n holl galon a'n holl enaid.

Arferai efengylydd enwog yn America gynnal cyfres o gyfarfodydd gyda'r nod o gael y gynulleidfa i roi'r gorau i'r peth hyn a'r peth arall, yr hyn a alwai yn "*quitting meetings*" – "*quit drinking, quit pleasure seeking, quit sinning".* Ac yn ystod un o'r cyfarfodydd hynny dyma ddyn yn codi ar ei draed, yn amlwg wedi'i gyflyru gan y cyffro, gan weiddi, "*I'm going to quit being a quitter!*" Dyna yw cyfrinach bod yn ddisgybl buddugoliaethus: yn hytrach na rhoi'r ffidil yn y to, yn hytrach nag ildio i'n hamheuon, yn hytrach na cheisio trwsio ein gorffennol toredig, gadawn y cyfan ar ôl, cerddwn i ffwrdd oddi wrthynt, a dechreuwn hawlio addewidion ein hyfory. Yng ngeiriau emyn adnabyddus y Parchedig Peter Thomas:

Mae'r yfory heb ei brofi
  mae ei stôr o hyd dan sêl;
mae pob dyfais mae am gynnig
  a phob profiad o dan gêl:
ond wrth fentro 'mlaen cei flasu
  gwir anturiaeth, ac fe weli
fod yfory yn obaith gwiw.

Yr eiddoch yng ngwaith y Deyrnas
Wyn Morris (Bugail)

### MUNUD I FEDDWL

Ceir stori am ddisgybl yn mynd at ei Athro Iddewig un tro gan ofyn iddo pryd y dylai wneud heddwch â Duw. "Un funud cyn marw," oedd yr ateb sydyn. "Ond," gofynnodd y disgybl ymhellach, "nid wyf yn gwybod pryd y bydd hynny." "Gwir a ddywedaist," meddai'r Athro, "felly, gwna hynny nawr!"

***Siars y Parchedig Eric Greene i Eglwysi'r Ofalaeth, Gwasanaeth Sefydlu'r Parchedig Wyn Morris, 25 Mai***

**Ond fe dderbyniwch nerth wedi i'r Ysbryd Glân ddod arnoch. (Actau 1:8)**

Yr oedd y disgyblion cyntaf eisoes wedi profi dylanwad yr Atgyfodiad ac yn awr yr oeddent yn disgwyl i addewid y Tad gael ei gyflawni. Yr oeddent ar fin derbyn arweiniad yr Ysbryd Glân yn eu bywydau. Os yw gwaith yr Arglwydd yng ngofalaeth y Garn am ddwyn ffrwyth yn ystod y blynyddoedd nesaf rhaid i chwi, yr arweinyddion a'r aelodau, yn ogystal â'r bugail newydd, fod yn sicr bod y tri pheth yma yn eich bywydau, fel unigolion ac fel eglwysi.

*1. Dylanwad yr Atgyfodiad*

Un o'r cwestiynau y byddem yn ei ofyn wrth y drysau gydag Ymgyrch "Mil o Wŷr ar Draed" oedd hwn: Beth rydych yn feddwl am Iesu Grist? 4 dewis – ddim yn bod; dyn da; proffwyd; neu unig Fab Duw? Nid dyn da a fu farw dros ryw achos arbennig ydy'r Iesu – merthyron oedd y rhai hynny ac yr ydym yn darllen amdanynt mewn llyfrau hanes; nid proffwyd chwaith – y mae'r Iesu'n wahanol i'r rhain i gyd – a hynny am ei fod wedi atgyfodi o'r bedd yn fyw. Mae'n fyw yng nghalonnau a phrofiadau Ei bobl heddiw. Ydy E'n fyw yn dy brofiad di? Ydy dylanwad yr Atgyfodiad yn eglur wrth i bobl edrych ar ein heglwysi ni ac arnom ni fel aelodau unigol o'r eglwysi?

*2. Derbyn yr Addewidion*

Yn ystod ei weinidogaeth, roedd Iesu wedi rhoi'r addewid hwn i bob un a oedd yn teimlo fod bywyd yn anodd: "Deuwch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi. Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon, ac fe gewch orffwystra i'ch eneidiau" (Mathew 11:28–9). Dywedodd wrth Ei ddisgyblion wrth iddynt ei gyfarfod ar fynydd yng Ngalilea a derbyn comisiwn ganddo: "Wele yr wyf fi gyda chwi bob amser." Yn wir, y mae'r Gair yn llawn o addewidion pwysig sy'n gallu bod yn gysur ac yn gymorth mawr i ni ar daith bywyd.

**Medi**

| | |
|---|---|
| **2** | Parchg M J Morris |
| 4 | Cyfarfod Dosbarth y Garn a Phen-llwyn<br>Agoriad i'r Maes Llafur gan y Parchg Wyn Rhys Morris<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 5 | Cyfarfod y Chwiorydd am 2 o'r gloch – croeso cynnes i bawb |
| **9** | Parchg D Harding Rees<br>Yr ysgol Sul yn ailddechrau |
| 12 | Henaduriaeth Gogledd Aberteifi<br>yng Nghapel Bronant am 6.30 o'r gloch |
| **16** | Bugail – cymun yn oedfa'r bore<br>Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre |
| 21 | Pwyllgor Swyddogion am 7 o'r gloch |
| **23** | Bugail<br>Raymond B Davies |
| **30** | Parchg J Pinion Jones |

*Ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunan-ddisgyblaeth.*
*(Galatiaid 5:2)*

***Apel Arbennig 2007 – Dechrau Newydd (Sierra Leone)***




Diolch yn fawr iawn i'r rhai ohonoch sydd wedi dychwelyd yr amlen a gawsoch gyda'r rhifyn diwethaf o 'Gair o'r Garn'. Y swm sydd wedi ei gasglu hyd yn hyn yw £**355**.

Y nod a osodwyd gan y Cyfundeb yw £10 yr aelod, sef cyfanswm o **£1,700** ar gyfer y Garn.

Os nad ydych eto wedi cyfrannu, yna apeliwn arnoch i wneud hynny mor fuan â phosib, os gwelwch yn dda.

Dyma ddywed y Parchedig John Tudno Williams, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol: 'Rhowch yn hael i'r apêl, os gwelwch chi'n dda. Rydyn ni'n herio pob eglwys i godi £10 am bob person sydd yn ein heglwysi dros y flwyddyn hon – mae hynna'n llai na phris CD neu ddau ymweliad â'r sinema.'

Felly, byddai'r Trysorydd neu'r Swyddogion yn falch o dderbyn yr amlenni sydd heb eu dychwelyd hyd yn hyn – ac unrhyw gyfraniad arall yr hoffech ei wneud.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch haelioni.

Yr ydym i gyd, ar ryw adeg yn ein bywydau, wedi cael ein siomi gan rywun na chadwodd ei addewid – rhyw athro ysgol, rhyw arweinydd ieuenctid, rhyw ffrind yr oeddem yn ymddiried ynddo neu'n sicr, rhyw blaid wleidyddol! Ond yn yr Iesu, y mae gennym ni Un sydd wastad yn cadw ei holl addewidion.

*3. Dibynnu ar arweiniad yr Ysbryd Glân*

Mae'r Gair yn dweud wrthym fod yr Ysbryd Glân yn eiddo i bob Cristion, ond nid pob Cristion sy'n ymwybodol o hyn o bell ffordd. Yn Effesus, fe ddaeth Paul ar draws nifer o gredinwyr ac meddai ef wrthynt: "A dderbyniasoch yr Ysbryd Glân pan gredasoch?" ac meddent hwythau, "Naddo, ni chlywsom hyd yn oed fod yna Ysbryd Glân." Fe fyddaf yn meddwl weithiau fod yna lawer o bobl tebyg iddynt yn yr eglwysi yng Nghymru heddiw, ddim yn llythrennol wir hwyrach. Mae pawb yn ein heglwysi yn gwybod y gras apostolaidd sy'n sôn am "gymdeithas yr Ysbryd Glân" ond fe fyddai llawer o'n pobl hefyd yn gallu dweud: "Ni chlywsom fod yr Ysbryd Glân yn gallu bod yn rym yn ein bywydau gan ein galluogi ni i wneud pethau yn ei nerth Ef na allem erioed eu gwneud ar ein pennau ein hunain." Ond dyna yw'r angen mawr os yw'r eglwys am lwyddo – pobl sy'n barod i gredu bod yr Ysbryd Glân yn gallu gweithio trwyddynt – i ddileu ein swildod a'n hansicrwydd a'n gwneud yn dystion effeithiol yn y byd heddiw.

Y perygl yw fod llawer ohonom yn dweud fod pethau fel hyn – dylanwad yr Atgyfodiad, derbyn yr addewidion a dibynnu ar arweiniad yr Ysbryd Glân yn iawn i'r gweinidogion a'r blaenoriaid, ond 'Cyfrifwch fi allan! *Count me out!* Rwy'n ddigon hapus i aros ar y cyrion. Mi wnaf beth fedra i, pan mae'n hwylus."

Onid dyna pam mae'r sefyllfa fel y mae hi yng Nghymru heddiw? Dim digon o bobl yn barod i gomitio eu hunain i'r gwaith, dim digon o bobl wedi profi dylanwad yr Atgyfodiad yn eu bywydau, heb allu dibynnu ar yr addewidion ac sydd heb dderbyn arweiniad yr Ysbryd Glân yn eu bywydau fel grym effeithiol. Dyna'r math o bobl y mae Wyn Morris eu hangen i gyd-weithio ag ef yn y fan yma. Dyna'r math o bobl y mae'r Arglwydd Iesu yn chwilio amdanynt i gario ymlaen ei waith heddiw. Faint o bobl yr ofalaeth sy'n barod i wynebu yr her hon?

“OS MÊTS …” **GWEITHGAREDD IEUENCTID Y FRO**

Wel ... mae criw helaeth o ieuenctid yr ofalaeth a’r fro wedi cael cyfleoedd arbennig, diolch i Mr Glyn Saunders Jones a llu o garedigion fu’n cefnogi’r fenter:

| | |
|---|---|
| 16 Mawrth: | noson yn y theatr |
| 18 Ebrill: | nofio yng Nghlarach |
| 25 Ebrill: | adloniant a gwaith theatr gyfoes gan dalentau *Theatr Ieuenctid* + |
| 16 Mai: | Pili Palas yng Nghwm Rheidol |

Ar 23 Mai mwynhawyd chwaraeon a barbeciw yng nghyffiniau’r Borth ac Ynys-las. Roedd rhostwyr Gwyniarth yn chwysu ond yn llwyddo i fwydo llengoedd llwglyd. Da oedd cael cwmni'r Parchedig Wyn Morris a Mrs Judith Morris, a’r Parchedigion Richard Lewis a John Livingstone, ynghyd â nifer o rieni a chefnogwyr. Diolch i bawb yn wir, heb anghofio’r arch-drefnydd.

Mae’r seiliau wedi gosod. Nawr awn ymlaen i drefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf a chynhelir cyfarfod o’r Gweithgor yn fuan. Dewch i gefnogi’r fenter.



Nifer o’r rhai a gymerodd ran yn y Gwasanaeth Sefydlu

**Awst**

| | |
|---|---|
| **5** | Uno â’r Noddfa am 10 o’r gloch |
| **12** | Parchg Gordon Macdonald am 10 o’r gloch<br>Noddfa yn uno yn y Garn |
| **19** | Uno â’r Noddfa am 10 o’r gloch<br>Oedfa’r hwyr am 5 o’r gloch dan arweiniad Lyndon Lloyd |
| **26** | Parchg Lewis Wyn Daniel am 10 ac am 5 o’r gloch<br>Noddfa yn uno yn y Garn |

Etholwyd y canlynol yng nghyfarfod mis Ebill yn swyddogion y Chwiorydd am y flwyddyn 2007–08:

Llywydd: Judith Morris

Cadeiryddes: Ann Jones

Ysgrifenyddes: Shân Hayward

Trysoryddes: Vera Lloyd

Aelodau’r pwyllgor a chydlynwyr yr ardaloedd:

Llandre: Marjorie Hughes

Pen-y-garn: Beryl Hughes

Dole a’r ffermydd: Dwysli Peleg Williams

Maes Ceiro: Meinir Roberts

Y Lôn Groes: Dilys Jones

Tregerddan: Kathleen Lewis

Blaenddâl a’r cyrion: Shân Hayward

Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor brynhawn Mercher, 5 Medi, am 2 o’r gloch. Mae croeso cynnes i bawb.

## *Chwiorydd y Garn*

Codwyd y swm o £218 yn dilyn cinio Bara a Chaws ar ôl yr oedfa fore Sul, 20 Mai, er budd Cymorth Cristnogol. Yn ychwanegol at hynny derbyniwyd £196, sef swm casgliad y gwasanaeth undebol, ac felly trosglwyddwyd £414 i drefnydd lleol Cymorth Cristnogol.



Y chwiorydd a fu'n paratoi'r cinio Bara a Chaws

*Gwasanaeth Sefydlu'r Gweinidog, nos Wener, 25 Mai*

Gair o ddiolch i bawb fu'n gweini wrth y byrddau ac yn gweithio'n galed yn y gegin. Diolch i bob un ohonoch chi am eich parodrwydd ac am eich cydweithrediad.

Diolch arbennig i Mrs Dilys Morgan am baratoi lluniaeth mor flasus.

*ML*

## Gorffennaf

| | |
|---|---|
| **1** | Parchg Athro John Tudno Williams<br>Gŵyl yr ysgolion Sul yn ysgol Llanfarian am 2.15 o'r gloch |
| 2 | Pwyllgor Swyddogion am 7 o'r gloch |
| 6 | Barbeciw'r Garn ym Methlehem, Llandre<br>Gweithgareddau i'r plant am 6 o'r gloch;<br>bwyd ar gael o 6.30 ymlaen<br>Pris: £4 i oedolion; £1 i blant |
| 7 | Gwasanaeth ordeinio a sefydlu Mrs Judith Morris<br>yng Nghapel Bethel, Aberystwyth, am 2 o'r gloch |
| **8** | Parchg J Pinion Jones |
| 9 | Pwyllgor yr ysgol Sul am 7 o'r gloch |
| 10 | Cyflwyno gwerslyfrau newydd i'r ysgolion Sul<br>Festri'r Morfa, Aberystwyth, 7.30–8.30 |
| 13 | Pwyllgor Swyddogion am 7 o'r gloch |
| 14 | Trip yr ysgol Sul i Gaer<br>enwau i Lowri Evans (820518) neu ar y rhestr yn y festri<br>dewch i gefnogi – croeso cynnes i bawb |
| **15** | Bugail<br>Cymun yn oedfa'r bore |
| **22** | Parchg R W Jones |
| **29** | Bugail |

**Cenhadu yn Cymbria**

Un o bennaf gorchwylion pob Cristion yw cenhadu, sef rhannu'r newyddion da ag eraill. Adeg ei Ddyrchafael, gorchymyn yr Iesu i'w ddisgyblion ydoedd, "Byddwch yn dystion i mi yn Jerwsalem, ac yn holl Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear" (Actau 1:8b).

Ac ar ddechrau mis Mai eleni fe ddaeth cyfle arbennig i wneud hynny mewn pentref tlws iawn o'r enw Ambleside, ar ochr ogleddol Llyn Windermere, yn sir Cymbria. Yr oeddwn yn rhan o ymgyrch "Through Faith Mission" gyda phum cant o bobl o bob rhan o wledydd Prydain wedi disgyn ar y sir dros gyfnod o dair wythnos i ledaenu'r Efengyl. Ymddiriedolaeth elusennol ydyw "Through Faith Missions" gyda'i bencadlys yn Coton, yn ymyl Caer-grawnt, a'i sylfaenydd yw'r Parchedig Daniel Cozens, offeiriad yn Eglwys Loegr. Rhwng Mai 1991 a Medi 2005 trefnwyd cymaint â 10 o deithiau cerdded gwahanol gan y mudiad, gan gynnwys yr un yn 1996 a oedd yn ymlwybro ar hyd Clawdd Offa.

*Prif Deithiau Cerdded "Through Faith Missions" (Mil o Wŷr ar Draed)*

*1991 Llwybr y Penwynion (Pennine Way)*

*1993 Cernyw*

*1995 Gogledd Iwerddon*

*1996 Clawdd Offa*

*1999 Caint*

*2000 Ynys Manaw*

*2001 Ynys Wyth*

*2003 Wessex*

*2004 Ynys Jersey*

*2005 De Dyfnaint*

Fel y teithiau blaenorol, prif nodweddion yr ymgyrch genhadol yn Cymbria oedd mynd at y bobl yn eu cynefin a cheisio cyrraedd y rhai hynny a oedd y tu allan i'r gymuned Gristnogol o addolwyr.

Yr oedd hi'n bwysig, felly, ein bod fel tîm o 15 aelod yn Ambleside yn cyd-weithio'n agos â'r 4 enwad eglwysig yn y pentref, sef yr Eglwys Anglicanaidd, yr Eglwys Fedyddiedig, yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Gatholig. Cawsom groeso cynnes iawn gan arweinwyr y gwahanol eglwysi ac yr oeddent wedi trefnu'n helaeth ar ein cyfer trwy ddarparu llety ar lawr y neuadd gymunedol yn y pentref, yn ogystal â chynnig lluniaeth fin nos yng nghartrefi rhai o'r aelodau.

Paratowyd rhaglen waith gynhwysfawr ar ein cyfer a olygai ein bod yn mynd o ddrws i ddrws yn cynnal arolwg ar gredoau personol y trigolion, e.e. Beth oedd eu cred am Dduw? Beth oedd eu cred ynglŷn â'r hyn a ddigwyddai iddynt ar ddiwedd eu bywyd? Pe gallent ofyn un cwestiwn i Dduw, beth fyddai hwnnw? Bu cyfle hefyd yn ystod yr wythnos i wneud gwaith ysgol (gwasanaethau boreol a gwersi addysg grefyddol), mynd i gyfarfodydd a digwyddiadau o bob math, ymweld â chartrefi'r henoed, cynnal oedfaon yn yr eglwysi, yn ogystal â gweithio'n allanol ar y strydoedd ac yn y tafarndai. Yn wir, lle bynnag yr oedd cyfle i sôn wrth eraill am Iesu, mi fyddem yno.

Ein bwriad oedd ceisio cyhoeddi'r Efengyl yn y ffordd fwyaf effeithiol, pa sefyllfa bynnag y caem ein hunain ynddi, gan wybod y byddai'r eglwysi lleol yn Ambleside yn sicrhau y byddai dilyniant i'n gwaith. Ar hyd yr wythnos ceisiem gael pobl i ddod i adnabod Duw yn bersonol a phrofi o'i gariad. Am hynny byddem yn annog pobl i wahodd Iesu Grist i mewn i'w bywyd fel eu Harglwydd a'u Gwaredwr drwy eu cymell i offrymu'r weddi awgrymedig hon:

*Arglwydd Iesu, mae'n ddrwg gennyf fy mod wedi mynd fy ffordd fy hun yn hytrach na'th ffordd di. Diolch i ti am farw drosof a dileu fy mhechodau.*

*Plîs dere mewn i'm bywyd a gwna fi y person yr wyt ti eisiau i mi fod. Amen.*

Cefais brofiadau anghyffredin yn ystod y daith genhadol yn Cymbria, profiadau a fydd o fudd mawr i mi yn ystod fy ngweinidogaeth yn ngogledd Ceredigion. Carwn ddiolch i chi fel gofalaeth am fy rhyddhau i wneud y gwaith pwysig hwn. Fy ngobaith a'm gweddi yw y bydd yr had a heuir gan Gristnogion ym mha bentref neu gymuned bynnag yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed.

*WM*